**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (187)**
**Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2006**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1**

- Cynnig i benodi ymddiriedolwr/wraig ychwanegol i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Eitem 2**

- Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

**Eitem 3**

- Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 4**

- Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Eitem 5**

- Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Eitem 6**

- Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

**Cwestiwn Brys - Williams Graham (South Wales East): Will the Minister make a statement on the impact of the closure of the DS Smith Paper Mill at Sudbrook, Monmouthshire.**

**Eitem 7**

- Y Datganiad Busnes

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Eitem 8** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

**Eitem 9** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 25 rhan 3 a 24.25

**Eitem 10**

- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006

**Eitem 11**

– Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

**Eitem 12**

– Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006

**Eitem 13**

– Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Personol (Cymru) 2006

**Eitem 14**

– Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol (Iechyd Deintyddol y Cyhoedd) (Cymru) 2006

*Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân*

**Eitem 15**

- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006

**Eitem 16**

- Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 29 y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad

**.....................................**

## Eitem 1 - Cynnig i benodi ymddiriedolwr/wraig ychwanegol i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## NDM2853 John Marek (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan Adran 18 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 3.4:

1. Yn penderfynu diwygio rheol B2 Atodlen 1.1 Rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn caniatáu hyd at chwech o Ymddiriedolwyr; a

2. Yn ethol Edwina Hart yn un o Ymddiriedolwyr y Cynllun.

*Mae rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn*

*http://assembly/presidingoffic/fees-office/guidance/pensions/rules-000525.doc*

**.....................................**

## Eitem 2 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

## NDM2854 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig

1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-2, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheiny'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones

Jocelyn Davies

Tamsin Dunwoody

Mick Bates

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi’r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 31 Mawrth 2006, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i’r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â’r mater a nodir yn yr Atodlen i’r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o’r fath, i'r Prif Weinidog.

**Atodlen**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 (FEL Y'I DIWYGIWYD): ADRAN 78**

**APÊL GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**DATBLYGIAD PRESWYL ARFAETHEDIG YN DILYN DYMCHWEL ADEILADAU CYFREDOL YN YSBYTY MEADOWSLEA, PENYFFORDD, SIR Y FFLINT**

**APÊL CYNLLUNIO AC APÊL CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG GAN T-MOBILE (UK) LTD AR GYFER DISODLI'R LWFRAU CYFREDOL GYDA LWFRAU GRP ER MWYN HWYLUSO GOSOD YN FEWNOL ORSAF FFÔN SYMUDOL YN EGLWYS SANT THOMAS, STRYD Y BADDON, Y RHYL**

.......................................

## Eitem 3 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

.......................................

## Eitem 4 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

……………………………………

**Eitem 5 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

……………………………………

**Eitem 6 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

……………………………………

**Cwestiwn Brys - Williams Graham (South Wales East): Will the Minister make a statement on the impact of the closure of the DS Smith Paper Mill at Sudbrook, Monmouthshire.**

……………………………………

**Eitem 7 - Y Datganiad Busnes**

……………………………………

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.***

**Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2855 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7

Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag
(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2006; a
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2006.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006; a
(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

.......................................

**Hysbysiad dan Reol Sefydlog 24.25(ii) a Gyflwynwyd ar 23 Chwefror 2006**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn); Owen John Thomas (Canol De Cymru)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 24.25 (ii), rydym yn gofyn bod Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006, a gynigiwyd yng nghynnig NDM2856, yn cael ei ystyried yn llawn.

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 25 rhan 3 a 24.25

## NDM2856 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

1. Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol

Gorchymyn Diddymu Asiantaeth Pensiynau'r GIG 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

2. Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Diwygio) 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

3. Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Diwygio) 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

4. Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ac yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2006.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Memorandwm Esboniadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

....................................

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006

## NDM2857 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid fod wedi darparu'r rheoliadau yn Gymraeg a Saesneg ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno'r rheoliadau yn y ddwy iaith

**NDM2858 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynglyn â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006

Dogfennau Ategol

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 - *Dim Copi Cymraeg Ar Gael*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

....................................

## Eitem 11 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

## NDM2859 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu nad yw'r rheoliadau'n gosod digon o bwyslais ar ofal deintyddol ataliol.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid fod wedi darparu'r rheoliadau yn Gymraeg a Saesneg ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno'r rheoliadau yn y ddwy iaith.

**NDM2860 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynglyn â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Mike German (Dwyrain De Cymru); Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Mewnosod Atodlen 4 newydd i greu pedwerydd Band yn neilltuol ar gyfer gofal ataliol fel y'i nodir ym Mand 1(g).

<u>**Datganiad i fynd gyda'r gwelliant uchod a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**</u>

Cost

Mae'r gwelliant hwn yn galw ar roi mwy o flaenoriaeth o fewn cyllidebau'r BILlau ar gyfer rhai categorïau o gleifion ac ar gyfer gofal ataliol. Nid yw'r gwelliannau'n ychwanegu cost at y gyllideb ddeintyddol ond yn rhoi blaenoriaeth o ran gwariant o fewn y gyllideb honno.

<u>Buddiannau</u>

Mae'r gwelliant hwn yn welliant gwario i arbed, gan wario mwy o arian cyn y cyfyd problemau er mwyn arbed arian ar driniaeth aciwt ddrud.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 - *Dim Copi Cymraeg Ar Gael*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 12 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006

## NDM2861 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw'r rheoliadau'n gosod digon o bwyslais ar ofal deintyddol i blant.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid fod wedi darparu'r rheoliadau yn Gymraeg a Saesneg ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno'r rheoliadau yn y ddwy iaith.

**NDM2862 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynglyn â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Mike German (Dwyrain De Cymru); Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

*Atodlen 3 Rhan 1*

Ym Mharagraff 1 (4) (a) Dileu "age" ac ychwanegu paragraff newydd (b)

"a person's age , except in that it is permissible to give preference to the treatment of those under the age of 18."

**Datganiad i fynd gyda'r gwelliant uchod a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

Cost

Mae'r gwelliant hwn yn galw ar roi mwy o flaenoriaeth o fewn cyllidebau'r BILlau ar gyfer rhai categorïau o gleifion ac ar gyfer gofal ataliol. Nid yw'r gwelliannau'n ychwanegu cost at y gyllideb ddeintyddol ond yn rhoi blaenoriaeth o ran gwariant o fewn y gyllideb honno.

Buddiannau

Mae'r gwelliant hwn yn welliant gwario i arbed, gan wario mwy o arian cyn y cyfyd problemau er mwyn arbed arian ar driniaeth aciwt ddrud.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

....................................

## Eitem 13 – Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Personol (Cymru) 2006

## NDM2863 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Personol (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y proffesiwn deintyddol gyda golwg ar:

1. oedi wrth ddarparu gwybodaeth am y baich gwaith a goblygiadau ariannu'r contractau

newydd i ddeintyddion;

2. rhai elfennau o fewn y contract newydd heb eu treialu; a

3. diffyg cyfle o fewn y contract newydd i roi lle i ddeintyddion wneud gwaith ataliol.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

Yn credu y dylid fod wedi darparu'r rheoliadau yn Gymraeg a Saesneg ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno'r rheoliadau yn y ddwy iaith.

**NDM2864 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynglyn â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Personol (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Personol (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006

Dogfennau Ategol

Gorchymyn Darpariaethau Trosiannol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Personol (Cymru) 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 14 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol (Iechyd Deintyddol y Cyhoedd) (Cymru) 2006

## NDM2865 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol (Iechyd Deintyddol y Cyhoedd) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2+3)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r rheoliadau yn gosod dyletswydd ar y BILlau i wella mynediad at ofal deintyddol dan y GIG pan fo prinder wedi'i bennu yn y cyfryw ddarpariaeth.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r rheoliadau osod dyletswydd ar y BILlau i wella lefelau gofal deintyddol ataliol ar gyfer plant.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid fod wedi darparu'r rheoliadau yn Gymraeg a Saesneg ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno'r rheoliadau yn y ddwy iaith.

**NDM2866 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynglyn â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd

Lleol (Iechyd Deintyddol y Cyhoedd) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol (Iechyd Deintyddol y Cyhoedd) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Mike German (Dwyrain De Cymru); Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Ym Mharagraff 2 (2) (b) rhoi 'regular' cyn 'dental inspection' a rhoi 'all' cyn 'pupils'.

**Datganiad i fynd gyda'r gwelliant uchod a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

Cost

Gallai gwelliannau i'r OS hwn gynyddu cost y ddarpariaeth ddeintyddol rywfaint, gan ei fod yn gosod dyletswydd i ddarparu gwasanaeth deintyddol i bob plentyn. Er bod hwn yn gynnydd mewn gwasanaeth, ni fydd y gost yn sylweddol gan mai cost ffiniol ydyw yn hytrach na chost lawn.

Buddiannau

Bydd costau'n cael eu harbed o hyn yn gyflym trwy wella iechyd deintyddol pobl ifanc a thrwy gostau llai ar gyfer gofal deintyddol aciwt a brys wrth i'r gwelliant hwn mewn iechyd deintyddol amlygu ei hun.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Mike German (Dwyrain De Cymru); Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Ym Mharagraff 2 (2) Dileu 'to the extent it considers necessary'.

**Datganiad i fynd gyda'r gwelliant uchod a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

Cost

Gallai gwelliannau i'r OS hwn gynyddu cost y ddarpariaeth ddeintyddol rywfaint, gan ei fod yn gosod dyletswydd i ddarparu gwasanaeth deintyddol i bob plentyn. Er bod hwn yn gynnydd mewn gwasanaeth, ni fydd y gost yn sylweddol gan mai cost ffiniol ydyw yn hytrach na chost lawn.

Buddiannau

Bydd costau'n cael eu harbed o hyn yn gyflym trwy wella iechyd deintyddol pobl ifanc a chostau llai ar gyfer gofal deintyddol aciwt a brys wrth i'r gwelliant hwn mewn iechyd deintyddol amlygu ei hun.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol (Iechyd Deintyddol y Cyhoedd) (Cymru) 2006 - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

*Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân*

## Eitem 15 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006

## NDM2867 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

**NDM2868 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd

a’r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a’r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a’r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

....................................

## Eitem 16 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 29 y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad

## NDM2869 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad y gosodwyd drafft ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

**NDM2870 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2006 ynghylch y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad; a

2. Yn cymeradwyo’r Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2006.

Dogfennau Ategol

Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

....................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

....................................

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mawrth, 7 Chwefror 2006

E P Silk

Clerc y Cynulliad